Arweiniad ar gyfer Cynigion Arddangos

Diolch am eich diddordeb yn Oriel Plas Glyn-y-Weddw. Croesawn gynigion arddangos gan unrhyw artist. Foddbynnag, darllennwch y dudalen hon cyn gyrru'ch gwaith i mewn.

Efallai yr hoffech ystyried pa fath o oriel yw Oriel Plas Glyn-y-Weddw, a'r math o waith a arddangosir yma.

Arddangosiadau yn Oriel Plas Glyn-y-Weddw

1. Mae Oriel Plas Glyn-y-Weddw yn cynnal saith arddangosfa y flwyddyn
2. Rhan amlaf bydd 3-4 artist yn arddangos ar unrhyw amser ynghyd a gwaith Artistiaid yr Oriel
3. Dim ond nifer fechan o'r holl gynigion a dderbynnir fydd yn cael eu harddangos.
4. Bydd yr arddangosfeydd yn cael eu rhaglennu tua blwyddyn a hanner o flaen llaw.
5. Mae Panel Artistiaid yn cyfarfod yn y Gwanwyn a'r Hydref I helpu'r Cyfarwyddwr a'r Curadur I ddewis ardangoswyr posib y dyfodol.
6. Oriel Plas Glyn-y-Weddw yw Oriel hynaf Cymru ac rydym felly wedi ymrwymo I gadw safon uchel o waith a arddangosir o fewn yr adeilad pwysig hwn.

Beth i'w yrru

1. Datganiad byr am eich gwaith.
2. Llythyr byr yn cynnwys eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost.
3. Amlen wedi ei stampio er mwyn dychwelyd y cynnig.
4. Eich CV
5. Delweddau o'ch gwaith. Rydym yn derbyn jpegs digidol (500 dpi fan leiaf) yn unig ar CD neu DVD.
6. Mae croeso i chi gynnwys unthyw ddefnydd i gefnogi eich cais, ee catalog, taflenni, cardiau arddangosiad preifat,ac yn y blaen.
7. Os byddwch angen i ni ddychwelyd eich cynnig drwy bost wedi ei recordio neu trwy wasanaeth arbennig gadewch i ni wybod, a gyrrwch yr arian postio perthnasol.
8. Peidiwch â gyrru gwaith celf gwreiddiol.
9. Gyrrwch waith o ansawdd uchel sydd yn amlwg yn cynrychioli'r gwaith yr ydych yn ei wneud.

Sylwer:

Tra rydym yn cymryd gofal o bob gwaith, ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am eu colli na'u difrodi

Peidiwch â gyrru gwaith celf gwreiddol. Gall gymryd rhai wythnosau neu hyd yn oed fisoedd i ystyried eich gwaith.

Byddwch yn amyneddgar. Byddwn yn ei ddychwelyd mor fuan ag sydd bosib.

Cysylltwch â

Gwyn Jones, Cyfarwyddwr neu Mari Lewis-Jones, Curadur

Cyfeiriad

Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd LL53 7TT

t: +44 (0)1758 740763

f: +44 (0)1758 740232

eBost: ymholiad@oriel.org.uk